



Pob Tîm Gofal Deintyddol Sylfaenol yng Nghymru

23 Mawrth 2020

Annwyl Gydweithwyr,

Diolch ichi i gyd am eich dealltwriaeth a'ch proffesiynoldeb ar yr adeg anodd hon. Yn sgil fy llythyr dyddiedig 17 Mawrth 2020 ac o gofio lledaeniad parhaus heintiau COVID-19, mae angen sicrhau bod timau deintyddol yn cael eu diogelu rhag y risg o haint, gan gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol a helpu eraill i wneud hynny, er mwyn helpu i leihau'r trosglwyddo.

Felly, rydym wedi penderfynu datgan ein bod bellach yn 'Lefel Rhybudd Deintyddol Coch COVID19' sy'n golygu bod angen i wasanaethau deintyddol gyfrannu at yr ymdrech genedlaethol i leihau lledaeniad COVID19 a'i effaith ar y boblogaeth.

Mae'r ddarpariaeth o ddeintyddiaeth reolaidd wedi'i lleihau'n sylweddol yng Nghymru yn ystod yr wythnos diwethaf. Cynghorir yn gryf, bod pobl 70 oed neu drosodd, pobl sydd â chyflyrau meddygol sylfaenol a menywod beichiog yn aros gartref. Mae ysgolion a busnesau lletygarwch wedi'u cau ar draws y wlad.

Mae hwn yn gyfnod o newid cyflym. Mae rotas ymarfer a Chanolfannau Gofal Deintyddol Brys yn cael eu sefydlu ym mhob Bwrdd Iechyd. Mae angen i dimau deintyddol gyfathrebu â thimau Byrddau Iechyd Lleol a gweithio â hwy er mwyn rhoi cyngor, cyfarwyddo ac asesu cleifion sydd ag anghenion brys.

I gefnogi timau deintyddol a chymunedau yng Nghymru, cadw at y cyngor ynghylch aros gartref a chefnogi cadw pellter cymdeithasol, o heddiw ymlaen dyma'r camau sy'n ofynnol:

- Mae angen i ddeintyddiaeth arferol sydd wedi'i hamserlennu ddod i ben am y tro.
- Dylai gweithdrefnau cynhyrchu erosol (AGP), sy'n cael eu hosgoi, ddod i ben bellach.
- Ni ddylai aelodau o'r tîm deintyddol sy'n feichiog neu sydd â gwrthimiwnedd ddarparu na helpu i ofalu am gleifion yn uniongyrchol neu eu hasesu.



- Gall practisau a gwasanaethau aros ar agor (drwy rota leol a staff sgerbwd) a dylent wneud pob ymdrech i frysbenno, cynghori a thawelu meddwl cleifion sydd â phroblem ddeintyddol dros y ffôn. Bydd hyn yn atal cleifion rhag teithio a mynychu'r ypractis neu'r clinig er mwyn lleihau'r cysylltiad â phobl sydd â symptomau neu â'r rhai sydd wedi'u heintio ond sy'n asymptomatig.
- Gall deintyddion gynnig presgripsiynau o bell, poenladdwyr a gwrthficrobau, drwy gysylltu â fferyllwyr lleol. Gall y fferyllwydd gyflenwi meddyginiaeth ar yr amod bod y deintydd yn darparu presgripsiwn corfforol o fewn 72 awr ar ôl gwneud y cais (rheoliadau meddyginiaethau dynol).
- Dylid gohirio pob triniaeth ddeintyddol y gellir ei gohirio ar hyn o bryd.

Os oes angen asesu yn bersonol, defnyddiwch weithdrefnau PPE safonol cadarn, trwy weld cleifion sy'n asymptomatig yn unig a cheisio cadw asesiadau wyneb yn wyneb a thriniaeth ddeintyddol (nad yw'n driniaeth AGP) i'r lleiaf posibl a dim ond i ddiwallu angen triniaeth frys.

Bydd yn rhaid i gleifion a nodir drwy ymgynghoriad dros y ffôn, sydd ag angen brys neu argyfwng na ellir ei ohirio ac y mae'n ofynnol i AGPs wneud hynny, gael eu hatgyfeirio at ganolfan Gofal Deintyddol Brys/Argyfwng ddynodedig eich Bwrdd Iechyd drwy system archebu leol ar gyfer asesu a gofalu - ond dim ond os yw hynny'n gwbl angenrheidiol. Ni ddylai unrhyw glaf fynychu'r practis na'r ganolfan frys yn bersonol heb slot asesu/trin y cytunwyd arno ymlaen llaw.

Bydd Byrddau Iechyd yn gweithio gydag arferion lleol i sicrhau bod ganddynt fanylion systemau archebu ac i gysylltu'r aelodau tîm hynny o bractisau sy'n fodlon ac yn gallu cyfrannu at y rota staff yn y ganolfan. Bydd timau deintyddol yng nghanolfannau'r byrddau iechyd yn cael hyfforddiant ar ddefnyddio FFP3, ac mae FFP3 ar gael iddynt.

Mae FFP3 yn adnodd cyfyngedig ac nid yw'n ymarferol nac yn ddymunol hyfforddi, profi ei addasrwydd ai'i gyflenwi i bob tîm ymarfer deintyddol yng Nghymru. Er hynny, bydd ar gael yn y canolfannau lle mae cleifion, cadarnhaol neu asymptomatig, yn cael eu hasesu a'u trin.

Bydd y canolfannau yn dilyn meini prawf Argyfwng/Brys, a lle bynnag y bo modd oedi cyn darparu triniaeth i sicrhau bod yr achosion mwyaf difrifol yn cael blaenoriaeth ac i gadw stociau FFP3.

Bydd angen gwneud penderfyniadau ar sail barn glinigol - gweler y canllawiau amgaeedig am y rhybudd COCH i gefnogi hyn.


Mae'r sefyllfa'n datblygu'n gyflym. Mae cymdeithasau arbenigol a'r BDA yn cefnogi atal deintyddiaeth arferol, ac maent hefyd am sicrhau bod timau sy'n darparu gofal sy'n cynnwys Gweithdrefnau Cynhyrchu Erosol, yn cael eu hyfforddi, eu profi'n addas a'u bod yn cael mynediad i FFP3. O gofio'r cynnydd mewn mesurau cadw pellter cymdeithasol a gyhoeddwyd ddiwedd yr wythnos diwethaf, mae angen symud gwasanaethau deintyddol yng Nghymru i rybudd COCH cynllun deintyddol COVID-19 o heddiw ymlaen.

O ran cyflenwi contractau yn 2019/20, mae hyblygrwydd wedi'i gynnig ar gyfer hyd at 4% o'r contract os oes angen. Mae hyn yn golygu y gellir credydu hyd at 4% (o weithgarwch UDA) lle mae angen yr hyblygrwydd hwn i fodloni targed y contract o 100%. Mae'r hyblygrwydd hwn yn cydnabod y gallai practisau gael trafferth i gyflawni 100% o weithgarwch oherwydd y pandemig Covid-19 ar hyn o bryd oherwydd absenoldebau staff, canslo apwyntiadau ac ati, a helpu i sicrhau bod taliadau contractiol yn cymryd hyn i ystyriaeth.

Roeddwn am sicrhau bod manylion am daliadau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020 yn cael eu cynnwys gyda'r cyfathrebiad nesaf oddi wrth y CDO. Er hynny, mae'n bwysig ein bod wedi symud at y rhybudd COCH heddiw a bydd y manylion hyn yn dilyn cyn gynted â phosibl.

Diolch i chi i gyd am eich gwaith tîm parhaus a chydweithredol ar draws practisau, gwasanaethau, Bwrddau Iechyd a sefydliadau yng Nghymru. Rwyf yn meddwl am bob un ohonoch ac yn gobeithio eich bod chi a'ch teuluoedd yn dal yn iach Hyderaf y bydd y cyngor hwn yn cefnogi pob un ohonoch i lynu wrth gyngor ar gadw pellter cymdeithasol a hunanynysu.

Yn gywir,



Colette Bridgman
Prif Swyddog Deintyddol
Chief Dental Officer

Cc: Penaethiaid Gofal Sylfaenol pob Bwrdd Iechyd
Pwyllgor Deintyddol Cymru (gan gynnwys LDCs)
Cyfarwyddwyr Clinigol CDS
BDA Cymru